



CYNGOR
monmouthshire
COUNTY COUNCIL
sir fynywy

COD YMARFER CYNLLUNIO

Cyngor Sir Fynwy
Monmouthshire
County Council

Cod Ymarfer Cynllunio

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	3
2.0	Aelodau Etholedig.....	3
2.1	Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.....	3
2.2	Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio sydd hefyd yn Aelodau o Gyngorau Cymuned/Tref.....	4
2.3	Aelodau Wardiau Lleol nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio	4
2.4	Yr Holl Aelodau	5
3.0	Swyddogion	5
4.0	Gweithredu'r System Ddirprwyo.....	6
5.0	Trafodaethau Cyn ac yn Ystod Ceisiadau ac ar Faterion Gorfodaeth.....	7
6.0	Lobio Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio	8
7.0	Ceisiadau Cynllunio a Gyflwynwyd gan Aelodau, Cyngorau Cymuned/Tref a Swyddogion	8
8.0	Ceisiadau Cynllunio a Gyflwynwyd gan y Cyngor.....	9
9.0	Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio.....	9
10.0	Cyhoedd sy'n Siarad yn y Pwyllgor Cynllunio.....	10
11.0	Arolygiadau Safle Pwyllgor Cynllunio	11
12.0	Penderfyniadau Pwyllgor Cynllunio yn Groes i Argymhelliad Swyddog	12
13.0	Apeliadau yn erbyn Penderfyniadau'r Cyngor	12
14.0	Cyngorau Tref a Chymuned	13
15.0	Hyfforddiant i Aelodau.....	13
16.0	Adolygu Penderfyniadau	13

Cyngor Sir Fynwy
Monmouthshire
County Council

Cod Ymarfer Cynllunio

1.0 Cyflwyniad

1.1 Bwriedir y Cod Ymarfer hwn i arwain y gweithdrefnau y bydd Cyngorwyr ('Aelodau') a Swyddogion y Cyngor yn eu defnyddio i ymdrin â materion cynllunio ac i osod safonau y cywirdeb a'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt. Bydd Cyngor Sir Fynwy yn ceisio mabwysiadu arfer gorau wrth weinyddu'r broses gynllunio. Mae'n cydnabod bod y cyhoedd yn disgwyl i'r Cyngor gadw at egwyddorion tegwch, cysondeb a gwrthrychedd. Mae gan aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ran allweddol wrth sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu dilyn ac mae'r Cyngor wedi datgan bod yn rhaid i'r system Gynllunio fod yn deg ac agored. Mae Aelodau Etholedig yn allweddol bwysig wrth gyflafareddu dadleuon.

1.2 Mae'r system Cynllunio Gwlad a Thref yn golygu bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau am gynigion preifat ar gyfer datblygu a defnyddio tir, ond er budd y cyhoedd. Gwnaiff cyfraith cynllunio hi'n ofynnol i bob cais cynllunio gael ei bennu yn unol â'r cynllun datblygu mabwysiedig oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dynodi fel arall. Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried cyflwyniadau a wneir gan aelodau o'r cyhoedd, cyn belled ag y bônt yn berthnasol i ystyriaethau cynllunio perthnasol.

1.3 Gan fod y system gynllunio yn effeithio ar fywydau pobl a'u buddiannau preifat gall fod yn gynhennus iawn. Felly mae'n bwysig i aelodau o'r cyhoedd ddeall y system a bod â hyder yn ei didwylledd a'i thryloywder, a bod Aelodau a Swyddogion yn osgoi amhriodoldeb neu hyd yn oed amheuaeth o amhriodoldeb.

1.4 Rhaid i Aelodau a Swyddogion nid yn unig sicrhau bod eu hymddygiad yn cydfynd â'r Cod Ymddygiad i Aelodau a safonau proffesiynol i swyddogion (sy'n ymdrin â materion fel datganiadau buddiant, rhoddion a lletygarwch), ond, wrth ymdrin â materion cynllunio, hefyd yn gweithredu yn unol â'r Cod Ymddygiad Cynllunio hwn.

1.5 Gall torri'r cod hwn, er na fydd yn gyfystyr â thorri cyfraith droseddol, gael effaith niweidiol ar enw da a statws y Cyngor. Gallai arwain at weld penderfyniad yn cael adolygiad barnwrol a'r caniatâd cynllunio yn cael ei ddileu gan y Llys neu at gŵyn o gamweinyddu neu honiad o dorri'r Cod Ymddygiad i Aelodau gael ei wneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

1.6 Os bydd gan Aelodau neu Swyddogion amheuaeth am weithredu'r Cod hwn dylent geisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor.

2.0 Aelodau Etholedig

2.1 Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio

Dylai Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio:

- weithredu'n deg ac agored ac osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n rhoi'r argraff o duedd

- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartion eraill sydd â diddordeb.

Mater i bob aelod unigol yw penderfynu beth sy'n cyfateb i gyswllt amhriodol, ond, mae'n bwysig nad yw unrhyw gyswllt allan o'r cyffredin ac nad yw'n rhoi'r argraff i eraill bod natur y cyswllt yn amhriodol.

- ymdrin â phob cais cynllunio/mater â meddwl agored
- peidio â threfnu cefnogaeth neu wrthwynebiad i gais cynllunio
- pwysu a mesur yn ofalus yr holl faterion cynllunio cyn gwneud penderfyniad
- gwneud penderfyniadau ar seiliau cynllunio yn unig er budd y cyhoedd a pheidio â ffafrio, neu ymddangos fel pe bai'n ffafrio, unrhyw unigolyn, cwmni, grŵp neu ardal. Yn y cyswllt hwn, er bod gan Aelodau o'r Pwyllgor ddyletswydd arbennig i etholwyr eu Ward, gan gynnwys y rhai na wnaeth bleidleisio iddynt, mae eu prif ddyletswydd i'r gymuned gyfan.
- peidio penderfynu sut i bleidleisio ar geisiadau ar sail 'chwip' wleidyddol, ond ar deilyngdod cynllunio pob achos. (Barn yr Ombwdsmon yw y gallai gwneud penderfyniad cynllunio trwy ddisgyblaeth y chwip wleidyddol fod yn gamweinyddu)
- sicrhau bod y rhesymau am eu penderfyniadau yn cael eu nodi'n glir
- Wrth i adran 25 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 ddod i rym os bydd aelod yn gwneud neu ddweud rhywbeth cyn y pwyllgor cynllunio sy'n ystyried y cais cynllunio, ni fydd yr aelod yn cael ei farnu i fod â meddwl caeedig oherwydd yr hyn y mae'r aelod yn ei ddweud neu ei wneud yn unig. Ond mae'n hanfodol i'r aelod, wrth fynd i'r pwyllgor cynllunio, ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol cyn gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio.

2.2 Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio sydd hefyd yn Aelodau o Gynghorau Cymuned/Tref

Mae aelodaeth o Gyngor Cymuned/Tref yn rhoi cyfle i wrando ar farn leol ac nid yw ynddo ei hun yn creu gwrthdaro rhwng buddiannau i Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ar yr amod ei fod ef/hi yn cydymffurfio â gofynion y cod ymarfer hwn yn benodol wrth ystyried yr holl dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio.

Os yw'r Aelod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Gyngor Cymuned/Tref (neu un o'i Bwyllgorau) pan fydd cais/mater cynllunio dan ystyriaeth, gall ef/hi chwarae rhan lawn gan gynnwys cymryd rhan yn y drafodaeth, gofyn cwestiynau a hyd yn oed bleidleisio.

Ond, beth bynnag oedd datganiadau a gweithredoedd blaenorol yr aelod o'r pwyllgor cynllunio, rhaid i'r aelod wneud y penderfyniad yn y pwyllgor cynllunio gan ystyried ystyriaethau cynllunio perthnasol yn unig.

2.3 Aelodau Wardiau Lleol nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio

Pan fydd cais yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cynllunio mae gan Aelodau Ward Leol yr hawl i ddod i'r Pwyllgor Cynllunio (neu'r Panel Dirprwyo ac arolygon safle gan y pwyllgor neu banel) i siarad ar unrhyw fater cynllunio (yn amodol ar ddatganiadau buddiant), ond ni chânt bleidleisio. Nid yw Aelodau o'r fath yn gweithredu yn y swyddogaeth lunio penderfyniadau a gyflawnir gan aelodau o'r pwyllgor cynllunio.

Mewn amgylchiadau priodol gall aelod ward leol ar gyfer ward gyfagos hefyd fod â'r un hawliau a phetai'n aelod o'r ward leol. Pan fydd gan gais oblygiadau ehangach, gall y Cadeirydd arfer disgresiwn a gadael i aelodau eraill annerch y pwyllgor.

Pan fydd Cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio, byddant yn eistedd ar wahân i Aelodau'r Pwyllgor - os byddant yn bwriadu annerch y Pwyllgor neu beidio - ac oni bai eu bod yn cael eu gwahodd i wneud hynny gan y Cadeirydd ni fyddant yn cyfathrebu ag Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfarfod.

Gall y rhai nad ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor annerch y Pwyllgor ar ôl i'r swyddog gyflwyno'r cais a chyn unrhyw siaradwyr eraill.

2.4 Yr Holl Aelodau

Mae Aelodau Ward Leol yn cynrychioli eu hadran etholiadol a'r Sir yn ei chyfanrwydd. Gall unrhyw aelod roi cyflwyniadau ar geisiadau cynllunio. Pan fydd aelod y ward leol y mae'r cais wedi ei leoli yn ei ardal yn dymuno i gais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio neu'r Panel Dirprwyo bydd yn rhoi gwybod i swyddogion yn ysgrifenedig naill ai trwy lythyr neu e-bost am hynny a rhoi rhesymau cynllunio perthnasol am y cais. Bydd barn yr Aelod Ward Leol yn cael ei chynnwys yn adroddiad y cais. Mae "rhesymau cynllunio" yng nghyswllt cais yr Aelod Ward Leol yn golygu datganiad syml yn amlinellu'r ystyriaethau perthnasol sy'n cyfiawnhau i'r cais cynllunio gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio neu'r Panel Dirprwyo.

Ni fydd Aelodau'n cael rhoi pwysau ar Swyddogion i wneud argymhellion penodol mewn adroddiadau. Byddai hyn yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn glir

3.0 Swyddogion

3.1 Swyddogaeth Swyddogion yw cyflawni'r swyddogaethau gweinyddol a gweithredol i gefnogi'r broses gynllunio ac i roi cyngor proffesiynol i'r cyhoedd a'r Cynghorwyr.

3.2 Y Prif Swyddog – Menter sy'n gwneud penderfyniadau ar y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio dan bwerau dirprwyedig swyddogion ac mae'n gwneud argymhellion ar geisiadau mwy arwyddocaol a dadleuol a materion cynllunio eraill i Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor wneud penderfyniadau arnynt. Gall yr aelod ward leol y mae safle'r cais cynllunio yn ei ardal ofyn i unrhyw gais cynllunio gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad yn hytrach na thrwy hawliau dirprwyedig swyddogion ond rhaid rhoi rhesymau cynllunio perthnasol dros wneud hynny. Mae rhai o'r penderfyniadau dan bwerau dirprwyedig gan swyddogion yn cael eu harfer trwy ymgynghori â'r Panel Dirprwyo.

3.3 Wrth ystyried ceisiadau cynllunio ac wrth gynghori Aelodau a'r cyhoedd am bolisi cynllunio, penderfynu ar geisiadau cynllunio, gorfodi a materion cynllunio eraill, bydd Swyddogion Cynllunio yn:

- gweithredu'n deg ac agored ac osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n rhoi'r argraff o duedd
- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb
- pwysu a mesur yn ofalus yr holl faterion cynllunio perthnasol
- gwneud penderfyniadau ar seiliau cynllunio yn unig gan ystyried y cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill
- rhoi cyngor cynllunio proffesiynol, gwrthrychol a chywir
- rhoi dadansoddiad cynhwysfawr a chywir o'r materion cynllunio
- rhoi argymhelliad clir
- gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor
- cofnodi unrhyw fuddiant all fod ganddynt mewn cais cynllunio, neu'r modd y

gallai'r cais effeithio arnynt ar ffeil y cais cynllunio ac yn y llyfr Cofnod o Fuddiannau a gedwir yn y Swyddfa Gynllunio

- cadw at God Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.

3.4 Mae Swyddogion Cyfreithiol y Cyngor yn cynghori Aelodau ar faterion cyfreithiol a gweithdrefnol. Wrth wneud hynny, rhaid iddynt:

- weithredu'n deg ac agored ac osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n rhoi'r argraff o duedd
- osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol ag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartion eraill sydd â diddordeb
- roi cyngor proffesiynol, gwrthrychol a chyson
- weithredu penderfyniadau'r Pwyllgor cyn belled ag y maent yn ymwneud â chwblhau unrhyw gytundeb cyfreithiol, cychwyn/amddiffyn camau cyfreithiol ac yn y blaen.

4.0 Gweithredu'r System Ddirprwyo a Swyddogaeth y Panel Dirprwyo

4.1 Bydd y Cyngor yn gweithredu cynllun dirprwyo penderfyniadau i swyddogion. Mae'r cynllun yn diffinio materion i'w penderfynu gan swyddogion trwy ymgynghori â'r Panel Dirprwyo (Cadeirydd, Is-gadeirydd a Llefarydd yr Wrthblaid ar y Pwyllgor Cynllunio) a'r rhai sy'n cael eu dirprwyo'n gyfan gwbl i swyddogion.

4.2 Ni fydd y rhestr o geisiadau a manylion ceisiadau'n dynodi a fydd cais cynllunio'n cael ei drin dan bwerau dirprwyedig gan y gall statws cais cynllunio newid yn ystod y camau prosesu. Yn ychwanegol, gall y Prif Swyddog neu Bennaeth Gwasanaeth nodi bod cais i'w roi ger bron y Pwyllgor os yw'n ymdrin â materion dadleuol.

4.3 Trefnir cyfarfodydd panel yn gyson i ystyried ceisiadau sydd i'w hystyried gan y Panel Dirprwyo. Cyflwynir rhestr o geisiadau neu faterion eraill y bwriedir iddynt gael eu pennu dan bwerau dirprwyedig i'r Panel Dirprwyo. Gelwir hon yn Rhestr Dirprwyo. Dylai lleiafswm o ddau aelod fod yn bresennol yn y Panel Dirprwyo.

4.4 Bydd y Rhestr Dirprwyo yn nodi manylion y cais cynllunio ag argymhelliad y swyddog.

4.5 Bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar bob cais neu fater arall i'w bennu dan bwerau dirprwyedig swyddogion. Bydd yr adroddiad yn cynnwys disgrifiad o'r cynnig, hanes cynllunio, crynodeb digonol o'r gwrthwynebiad/cyflwyniadau, polisiâu perthnasol, gwerthusiad proffesiynol ac argymhelliad. Dylai unrhyw sylwadau gan Gynghorau Cymuned neu Dref, sy'n groes i'r argymhelliad, gael eu trafod yn benodol yn y gwerthusiad proffesiynol, dan y teitl: *'Ymateb i Gyflwyniadau Cynghorau Tref/Cymuned'*.

Y Swyddogion Perthnasol: Dim ond y canlynol all awdurdodi argymhellion a phenderfyniadau swyddogion ar benderfyniadau dirprwyedig:

Prif Swyddog – Menter

Pennaeth Creu Lleoedd, Tai, Priffyrdd a Llifogydd

Pennaeth Cynllunio

Rheolwr Gwasanaethau Datblygu

Rheolwr Treftadaeth

Rheolwr Ardal Rheoli Datblygu

4.6 Ni all y Panel Dirprwyo bennu materion cynllunio. Bydd swyddogion yn

ymgyngori â'r Panel ar y materion hynny a ddynodwyd yn y Cynllun Dirprwyo. Gall y Panel ei gwneud yn ofynnol i gais cynllunio neu fater arall gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a bydd yn dynodi unrhyw gais cynllunio neu fater arall na ddylid ei ddirprwyo. Byddant yn llofnodi'r rhestr ond bydd y geiriau **Heb ei Ddirprwyo** neu **Cyfeirio i'r Pwyllgor** yn cael eu hysgrifennu ar draws y rhestr berthnasol. Dylai'r Rhestr Dirprwyo wedi ei llofnodi gael ei chadw ar gronfa ddata TG yr Adran Gynllunio.

4.7 Pan fydd y Cyngor yn derbyn gwrthwynebiad ac y bydd swyddogion yn argymhell cymeradwyo cyn i gais gael ei bennu, bydd swyddogion yn:

- Darparu copi o werthusiad y swyddog i'r rhai sydd wedi gwrthwynebu neu gefnogi, yr ymgeisydd/asiant a'r aelod lleol
- Cynnig cyfarfod yr ymgeisydd/asiant a'r gwrthwynebwyr/cefnogwyr ar y safle neu, os nad yw hynny'n ymarferol, yn Swyddfeydd y Cyngor gyda'r Panel Dirprwyo.

4.8 Bydd y Panel Dirprwyo hefyd yn ffurfio Panel Dylunio er mwyn i'r aelodau gyfrannu at broses ddylunio datblygiad yn gynnar. Bydd y Panel yn cyfarfod yn ôl y gofyn a bydd yn ystyried ceisiadau ar gyfer 10 neu fwy o anheddau neu ddatblygiad nad yw'n ddatblygiad preswyl o 1,000 medr sgwâr neu fwy a cheisiadau eraill a all godi materion dylunio pwysig. Gwahoddir yr ymgeisydd/asiant i'r cyfarfod fel y bydd unrhyw bartïon eraill perthnasol. Gwahoddir yr aelod ward lleol i'r cyfarfod. Swyddogaeth y Panel Dylunio fydd cynghori ar agweddau dylunio'r cais cynllunio. Ni fydd y Panel Dylunio'n rhoi unrhyw syniad o ganlyniad y cais.

5.0 Trafodaethau Cyn ac yn Ystod Ceisiadau ac ar Faterion Gorfodaeth

5.1 Mae trafod a negodi yn hanfodol yn y broses gynllunio gan y gallant greu gwelliannau a all wneud cais yn dderbyniol neu ddatrys problemau. Mae'r Cyngor yn annog y trafod a'r negodi hwn.

5.2 Bydd trafodaethau o'r fath yn digwydd ar lefel swyddogion fel arfer a bydd Aelodau, pryd bynnag y bydd yn bosibl, yn cyfeirio ceisiadau am gyngor o'r fath at y Swyddogion.

5.3 Pan fydd Aelodau'n teimlo y byddai cyfarfod ffurfiol yn ddefnyddiol i egluro'r materion, ni ddylent fyth geisio trefnu'r cyfarfod hwnnw eu hunain ond dylent ofyn i'r Pennaeth Cynllunio neu'r Rheolwr Gwasanaethau Datblygu ei drefnu. Bydd y swyddog(ion) wedyn yn sicrhau bod y rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael cyngor o'r dechrau na fydd y drafodaeth yn rhwymo'r awdurdod i unrhyw weithred benodol. Gall y Panel Dirprwyo ddod i'r cyfarfod gan ddibynnu ar raddfa a/neu oblygiadau'r cynnig ac Aelod Ward Leol y ward y mae safle'r cais cynllunio ynddi (gweler par.4.8 uchod). Gall Aelodau Wardiau eraill yn yr ardal fynychu pan fydd gan y cais oblygiadau ehangach.

5.4 Gall Aelodau hefyd fynd i gyflwyniadau gan ymgeiswyr neu ddatblygwyr ond dylai naill ai swyddog fod yn bresennol neu dylent fod wedi rhoi gwybod i swyddogion amdano a'r swyddogion wedi ei drafod gydag Aelodau neu eu briffio amdano.

5.5 Dylai'r Aelodau bob amser ystyried Cod Ymddygiad y Cyngor i Aelodau a'r Cod Ymarfer Cynllunio.

5.6 Bydd yr holl Swyddogion sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau yn:

- mynegi yn glir ai nhw fydd yn gwneud penderfyniad ar y cais/mater dan drafodaeth neu beidio

- mynegi yn glir mai dim ond barn bersonol a dros dro y gellir ei mynegi na fydd yn rhwymo'r Cyngor i gyrraedd penderfyniad penodol wrth bennu ar y cais
- mynegi barn yng nghyd-destun y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill
- gyson wrth ddehongli polisiau cynllunio
- rhoi cyngor i ymgeiswyr a chymdogion/gwrthwynebwyr am faterion gweithdrefnol.

5.7 Yn achlysurol bydd pobl leol neu Gyngorau Cymuned/Tref yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod cais cyfredol a gallant wahodd yr ymgeiswyr, Aelodau a Swyddogion i fod yn bresennol. O ystyried yr angen i osgoi rhoi ymrwymadau a sicrhau bod meddwl agored ar gynigion yn cael ei gadw, bydd Aelodau o'r Pwyllgor a Swyddogion sy'n mynd i gyfarfodydd o'r fath yn eu defnyddio i gasglu ffeithiau, ni fyddant yn mynegi barn derfynol dros nac yn erbyn y cynnig a byddant yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd y Cod hwn fel arall.

6.0 Lobio Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio

6.1 Lobio yw'r broses lle mae ymgeiswyr a'u hasiantau, cymdogion, pobl nad ydynt yn Aelodau'r Pwyllgor a phartïon eraill â diddordeb yn ceisio darbwyllio Aelodau'r Cyngor ar y Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniad neilltuol. Mae'n rhan ddilys o'r broses gynllunio iddynt gysylltu ag Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio gan y gall y trafodaethau hyn helpu Aelodau i drafod y materion a'r pryderon. Fel y nodwyd yn Nhrydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan: "mae'n hanfodol ar gyfer gweithrediad priodol y system Gynllunio i bryderon lleol gael eu gwyntyllu'n ddigonol".

6.2 Wrth ymateb i gysylltiadau o'r math hwn, bydd Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y naw egwyddor a amlinellir ym Mharagraff 2.1 uchod ac efallai y byddant yn dymuno gwneud cofnod o'r penderfyniad, ond gallant hefyd:

- i) Esbonio'r sefyllfa anghyson y maent ynddi petaent yn mynegi barn derfynol ar gynnig cyn iddo gael ei ystyried yn y Pwyllgor/ gan y Prif Swyddog
- ii) Esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi cyflwyniadau; y gall y cyhoedd siarad yn y Pwyllgor (yn ddarostyngedig i fodloni nifer o amodau yn y protocol Cyhoedd yn Siarad) petai'r cais yn dod i'r Pwyllgor i benderfynu arno, ac y bydd penderfyniad yn cael ei wneud pan fydd yr holl ystyriaethau cynllunio perthnasol wedi cael eu hystyried yn unig
- iii) Esbonio'r mathau o faterion cynllunio y gall y Cyngor eu hystyried
- iv) Roi adroddiad ar faterion a godwyd i'r Swyddogion neu gyfeirio'r cyhoedd at y Swyddogion fel bod eu barn yn cael ei hystyried
- v) Roi cyngor i'r cyhoedd gysylltu ag Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor a all gynrychioli barn leol yn ddilyffethair.

6.3 Pan fydd Aelod o'r Pwyllgor yn teimlo ei fod wedi ei lobio'n afresymol neu eithafol ar gynnig penodol gall wneud datganiad yn y Pwyllgor Cynllunio am y cais y mae wedi cael ei lobio amdano. Ond, bydd yr Aelod hwnnw yn dal i allu siarad a phleidleisio ar y cais cynllunio os cedwir at y cyfarwyddyd yn Adran 2.

7.0 Ceisiadau Cynllunio a Gyflwynwyd gan Aelodau, Gyngorau Cymuned/Tref a Swyddogion

7.1 Bydd Ceisiadau Cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran Aelodau neu Swyddogion y Cyngor neu eu perthnasau agos*, pan fydd hynny'n hysbys, yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid gan y Prif Swyddog dan bwerau a ddirprwywyd i swyddog.

*Diffinnir 'Perthynas agos' fel priod, partner, rhiant, plentyn neu frawd neu chwaer.

7.2 Bydd yr Aelod y mae'n effeithio arno yn datgan buddiant ac ni fydd yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad.

7.3 Bydd yr Aelod y mae'n effeithio arno yn cofnodi ei fuddiant/ei buddiant ac ni fydd yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad.

7.4 Pan fydd Cyngor Cymuned/Tref yn cyflwyno cais cynllunio, dylai Aelodau'r Cyngor Sir sy'n Aelodau o'r Cyngor Cymuned/Tref hwnnw hefyd ddatgelu eu buddiant a thynnu yn ôl o unrhyw ystyriaeth bellach ar y mater.

8.0 Ceisiadau Cynllunio a Gyflwynwyd gan y Cyngor

8.1 Mae'n allweddol bod y Cyngor yn cael ei weld i fod yn trin ceisiadau ar gyfer ei ddatblygiadau ei hun (neu ddatblygiad yn cynnwys y Cyngor a rhywun arall) yn gyfartal â phob cais arall yn ogystal â gwneud hynny mewn gwirionedd.

8.2 Bydd pob cynnig o'r fath yn ddarostyngedig i'r un prosesau gweinyddol, gan gynnwys ymgynghori, â phob cais arall gan eu hystyried yn unol â'r polisi ac unrhyw ystyriaeth gynllunio berthnasol arall.

8.3 Er mwyn sicrhau tryloywder a bod yn agored wrth ymdrin â chynigion y Cyngor (heblaw cyflawni amodau a diwygiadau amherthnasol) ni fydd y rhain yn cael eu trin dan bwerau dirprwyedig swyddogion *pan na fydd y datblygiad yn cael ei gyflawni gan y Cyngor, er enghraifft, ei fod yn bwriadu gwerthu'r tir, neu bod gwrthwynebiad heb ei ddatrys i unrhyw gynnig gan y Cyngor*. Ond, gall mân geisiadau nad ydynt yn ddadleuol gan y Cyngor, er enghraifft gwaith ategol i gyfleuster sydd gan y cyngor yn barod (fel ysgol neu fferm Sirol), gael eu pennu dan bwerau dirprwyedig swyddog trwy ymgynghori â'r Panel Dirprwyo.

8.4 Pan fydd gan Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio gyfrifoldeb portffolio Cabinet yn ymwneud â chais bydd yn datgan y buddiant hwnnw ac ni fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais.

9.0 Adroddiadau Swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio

9.1 Bydd yr holl faterion Cynllunio sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn ddarostyngedig i werthusiad llawn gan swyddogion a bydd yn cynnwys argymhelliad. Bydd adroddiadau o'r fath yn gynhwysfawr, ond yn gryno wrth nodi'r materion cynllunio (a chyfreithiol) allweddol i'w hystyried (o ran darpariaethau'r cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill), sylwedd unrhyw gyflwyniadau a dderbyniwyd ac unrhyw hanes cynllunio perthnasol.

9.2 Dylai unrhyw sylwadau gan Gynghorau Cymuned neu Dref, sy'n groes i'r argymhelliad, gael eu trafod yn benodol yn y gwerthusiad proffesiynol, dan y teitl: *'Ymateb i Gyflwyniadau Cynghorau Tref/Cymuned'*. Bydd cyflwyniadau gan Aelod Ward Leol hefyd yn cael eu trafod.

9.3 Bydd crynodeb o ohebiaeth hwyr a dderbyniwyd ers i'r adroddiad gael ei baratoi ar gael i'r Pwyllgor a bydd yn cael ei anfon yn electronig i Aelodau erbyn diwedd y diwrnod busnes y diwrnod cyn i'r Pwyllgor Cynllunio gyfarfod. Bydd gohebiaeth hwyr yn

cael ei derbyn i'w hystyried hyd at ddyddiad cau o hanner dydd ar y dydd Gwener cyn y Pwyllgor Cynllunio ac ar ôl hynny ni fydd yn cael ei ystyried fel arfer oni bai ei fod yn codi materion cynllunio neu gyfreithiol perthnasol nad ydynt eisoes wedi cael eu hystyried yn adroddiad y swyddog. Mae "derbyniwyd" yn golygu a dderbyniwyd gan staff yr Adran Gynllunio yn Neuadd y Sir trwy'r post neu yn electronig.

9.4 Pan fydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio bydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor yn cyhoeddi'r agenda ar wefan y Cyngor bum diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod ei hun. Yn ychwanegol, bydd yr Adran Gynllunio yn cyhoeddi gwerthusiad y swyddog ar gyfer pob cais sydd ar yr agenda ar y ffeil cais electronig perthnasol cyn cyfarfod y pwyllgor ei hun er mwyn i'r cyhoedd allu gweld y rhain.

10.0 Gweithdrefn yn y Pwyllgor Cynllunio

10.1 Dilynir y weithdrefn ganlynol yn y Pwyllgor Cynllunio:

- Bydd y Cadeirydd yn dynodi'r cais i'w ystyried
- Bydd swyddog yn cyflwyno crynodeb byr o'r cais a'r materion gyda'r argymhelliad
- Gwahoddir yr Aelod Lleol, os nad yw ar y Pwyllgor Cynllunio, i siarad am uchafswm o 6 munud gan y Cadeirydd
- Yna gwahoddir cynrychiolydd y cyngor cymuned neu dref i siarad am uchafswm o 4 munud gan y Cadeirydd
- Yna bydd y Cadeirydd yn gwahodd, yn eu tro, y gwrthwynebydd a/neu gefnogwr i siarad am uchafswm o 4 munud yr un
- Yna bydd y Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd neu Asiant a Benodwyd (os yn berthnasol) i siarad am uchafswm o 4 munud. Pan fydd mwy nag un unigolyn neu sefydliad yn siarad yn erbyn cais, bydd yr Ymgeisydd neu Asiant a Benodwyd yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd yn cael hawl i siarad am uchafswm o 5 munud
- Fel arfer cedwir yn gaeth at y cyfyngiadau amser er y bydd gan y Cadeirydd ddisgrisiwn i addasu'r amser o ystyried amgylchiadau'r cais neu'r rhai sy'n siarad
- Unwaith y bydd siaradwyr yn cael siarad
- Gall Aelodau'r Pwyllgor wedyn godi cwestiynau gyda'r swyddogion
- Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedyn yn trafod y cais, gan gychwyn gyda'r Aelod Lleol os yw'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Ni fydd swyddogion yn cymryd unrhyw gwestiynau pellach oni bai ei fod i gynghori Aelodau am fater gweithdrefnol neu gyfreithiol, neu pan fyddant yn ystyried bod yr Aelodau'n gwyro oddi wrth ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- Yn union cyn i'r cais fynd i bleidlais, gwahoddir yr Aelod Lleol i grynhoi, gan siarad am ddim mwy na 2 funud
- Ni chaiff cynrychiolydd y cyngor cymuned neu dref neu'r gwrthwynebydd/cefnogwr na'r ymgeisydd/asiant gymryd rhan yn ystyriaeth yr Aelodau o'r cais ac ni allant ofyn cwestiynau oni bai bod y Cadeirydd yn eu gwahodd i wneud hynny
- Pan fydd gwrthwynebydd neu gefnogwr neu ymgeisydd/asiant cyngor cymuned neu dref wedi siarad am gais, ni chaniateir unrhyw siarad gan nac ar ran y grŵp hwnnw petai'r cais yn cael ei ystyried eto mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol oni bai bod newid perthnasol yn y cais
- Mae penderfyniad y Cadeirydd ar faterion gweithdrefnol yn derfynol
- Wrth wneud cynnig i naill ai dderbyn argymhelliad y swyddog neu wneud gwelliant bydd yr Aelod sy'n cyflwyno'r cynnig yn nodi'r cynnig yn glir

- Pan fydd y cynnig wedi cael ei eilio bydd y Cadeirydd yn dynodi'r Aelodau sydd wedi cynnig ac eilio'r cynnig ac yn ailadrodd y cynnig a gynigiwyd. Bydd enw'r cynigydd a'r eilydd yn cael eu cofnodi
- Ni fydd aelodau yn pleidleisio yng nghyswllt unrhyw gais cynllunio oni bai eu bod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio trwy gydol y cyflwyniad a'r drafodaeth lawn ar y cais hwnnw.
- Bydd unrhyw Aelod sy'n ymatal rhag pleidleisio yn ystyried a yw am roi rheswm am ymatal
- Bydd y Swyddog Cyfreithiol yn cyfri'r pleidleisiau ac yn cyhoeddi'r penderfyniad.

10.2 Bydd hawl i'r cyhoedd siarad yn y Pwyllgor Cynllunio gan gadw'n gaeth at y protocol sydd ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r gwahoddiad i siarad a'r modd y cynhelir y cyfarfod yn ôl disgrisiwn Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio.

11.0 Arolygiadau Safle Pwyllgor Cynllunio

11.1 Ymarferion i ddod o hyd i'r ffeithiau yw arolygon safle'r pwyllgor sy'n rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad ar sail mwy o wybodaeth nag a fyddai'n bosibl fel arall o ddim ond darllen adroddiad y swyddog, gwranddo ar gyflwyniad y swyddog ac ystyried y farn a fynegwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor gan y partïon â diddordeb.

11.2 Diben arolwg safle yw egluro materion yn ymwneud â ffeithiau ac ni ddylai ymweliadau o'r fath gael eu cynnal oni bai bod y Pwyllgor yn methu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth heb weld y safle drostynt eu hunain ac y byddai'r arolwg yn cynnig budd sylweddol. Mae'r enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Pan fydd cyhuddiadau bod cynllun yn gamarweiniol
- Edrych i mewn i eiddo pobl eraill
- Amlygrwydd gweledol
- Deall topograffeg yr ardal

Mae'r enghreifftiau o adegau pan na fyddai ymweliad safle yn addas yn cynnwys:

- dim ond materion polisi pur neu faterion o egwyddor sydd dan sylw
- yr Aelod yn syml yn anghytuno â chasgliad yr adroddiad
- yr Aelod am ystyried anghydfodau o ran terfynau neu rhwng cymdogion
- materion cystadleuaeth
- colli gwerth eiddo
- unrhyw faterion eraill nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio perthnasol.

11.3 Bydd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio'n cynnal yr arolygon gan wahodd yr aelod o'r ward leol. Gall yr ymgeisydd (neu asiant) a gwrthwynebwyd/cefnogwyd fod yn bresennol ond dim ond tynnu sylw at ffeithiau yn ymwneud â'r safle y gallant ei wneud, a hynny yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd. Gwahoddir y cyngor cymuned neu dref i'r arolwg safle. Bydd swyddog yn bresennol i roi cyngor ar y cais.

11.4 Ni fydd Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio'n trafod y cais, heblaw i egluro ffeithiau, ac ni fyddant yn gwneud penderfyniad ar y safle.

11.5 Os bydd Aelod yn ei gweld yn angenrheidiol ymweld â safle ar ei ben ei hun (efallai am nad oedd yn bosibl mynd i arolwg y Pwyllgor), bydd yn edrych arno o fannau cyhoeddus yn unig, yn ceisio osgoi trafodaeth gyda phartïon â diddordeb ac, os bydd trafodaeth yn digwydd, yn ei gwneud yn glir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud pan fydd wedi ei drafod gan y Pwyllgor.

12.0 Penderfyniadau Pwyllgor Cynllunio yn Groes i Argymhelliad Swyddog

12.1 Pan na fydd y Pwyllgor yn derbyn yr argymhellion a wneir gan y Swyddogion bydd y cais yn cael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Cynllunio dilynol a'i ddwyn yn ôl gyda rhesymau dros ei wrthod neu amodau ei gymeradwyo yn ôl y gofyn.

12.2 Mae'n bwysig bod rhesymau llawn, clir a darbwyllo yn cael eu nodi pan wneir unrhyw benderfyniad cynllunio. Pan fydd cais yn cael ei bennu yn unol ag argymhelliad y swyddog mae adroddiad y swyddog yn bodloni'r gofyn. Ond, pan fydd Aelodau'n penderfynu ar gais yn groes i argymhelliad y swyddog, y prif gofnod o'r drafodaeth yw'r cofnodion. Felly mae'n hanfodol i resymau Aelodau gael eu cofnodi a bod cofnodion y cyfarfod yn ymgorffori datganiad llawn, clir a chywir o'r rhesymau.

12.3 Pan wrthodir caniatâd cynllunio yn groes i gyngor y swyddog, dylai Aelodau fod yn ymwybodol o'r risg y bydd costau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y Cyngor mewn apêl ddilynol. Rhoddir cyngor ar ddyfarnu costau yn Atodiad Adran 12 Llawlyfr Rheoli Datblygu: Dyfarnu Costau Llywodraeth Cymru. Yn berthnasol iawn i'r protocol hwn mae'r cyngor canlynol ym mhar. 3.9:

“Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn rhwym i fabwysiadu, neu gynnwys yn rhan o'u hachos, y cyngor proffesiynol neu dechnegol a roddwyd gan eu swyddogion eu hunain neu a gafwyd gan ymgynghorwyr statudol. Fodd bynnag, mae disgwyl iddynt ddangos bod ganddynt seiliau cynllunio rhesymol dros benderfynu yn groes i'r cyngor hwnnw a'u bod yn gallu cyflwyno tystiolaeth berthnasol i gefnogi eu penderfyniad. Os ydynt yn methu â gwneud hynny, mae'n bosibl y caiff costau eu dyfarnu yn erbyn yr awdurdod.”

13.0 Apeliadau yn erbyn Penderfyniadau'r Cyngor

13.1 Fel arfer bydd swyddogion yn trefnu gweinyddiad apêl ond mewn achos lle mae caniatâd cynllunio wedi ei wrthod yn groes i argymhelliad y swyddog a bod yr apelydd yn ceisio gwrandawriad anffurfiol neu ymchwiliad cyhoeddus, bydd disgwyl i Aelodau helpu i ffurfio a chyflwyno dadl y Cyngor yn yr apêl. Mae hyn yn wir oherwydd dan God Ymarfer Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), rhaid i swyddogion sy'n aelodau o'r Sefydliad beidio â gwneud datganiadau sy'n honni mai eu datganiadau hwy ydyn nhw, ond sy'n groes i'w barn broffesiynol bona fide. Mewn achos a bennwyd gan gyflwyniadau ysgrifenedig bydd dolen i'r ffrwd fyw o'r drafodaeth a'r cofnodion fel arfer yn ddigon i grynhoi dadl y Cyngor.

13.2 Ar ôl i'r apêl gael ei chyflwyno, yna yn y Pwyllgor Cynllunio nesaf fydd ar gael, bydd Aelodau unigol yn cael eu henwebu i gynrychioli dadl y Cyngor yn yr apêl. Gall Aelodau eraill fod yn bresennol i gyfrannu neu i wrando ar y drafodaeth yn y gwrandawriad i'r apêl neu'r ymchwiliad. Mae hyn yn arfer da ym mhob apêl boed y penderfyniad yn erbyn cyngor y swyddog neu beidio. Mae gan Aelodau ran bwysig i'w chwarae mewn apeliadau. Bydd yr aelod ward lleol yn cael gwybod am yr apêl. Gall yr aelod hwnnw neu unrhyw aelod arall, o fewn amserlen benodol, roi cyflwyniad ysgrifenedig i'r Arolygydd a gallant hefyd ymddangos mewn gwrandawriadau anffurfiol neu fel tyst mewn ymchwiliadau. Wrth wneud hynny dylent ddatgan a ydynt yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorydd lleol neu yn cynrychioli dadl y Cyngor.

13.3 Bydd Swyddogion yn cefnogi Aelodau sy'n dymuno bod yn yr apêl a/neu roi cyflwyniadau a'u cynghori am baratoi a chyflwyno tystiolaeth yn ogystal ag agweddau cyfreithiol. Pan fydd yn briodol bydd swyddog enwebedig yn cael ei ddynodi i gynorthwyo ac arwain aelodau cyn mynd i wrandawriad neu ymchwiliad a mynd i'r gwrandawriad neu ymchwiliad gyda'r aelod(au). Ond, ni fydd y swyddog yn gallu paratoi

na rhoi tystiolaeth pan fyddai'n groes i'w farn broffesiynol.

14.0 Cynghorau Cymuned a Thref

14.1 Bydd adroddiadau swyddogion yn benodol yn ymdrin â gwrthwynebiad cynghorau cymuned a thref.

14.2 Bydd clerod cynghorau cymuned a thref yn cael eu hysbysu trwy e-bost pan fydd agenda Pwyllgor Cynllunio yn cael ei chyhoeddi. Cyfrifoldeb y cyngor cymuned neu dref yw cofrestru i siarad mewn achosion pan fyddant yn dymuno annerch Aelodau'r Pwyllgor.

14.3 Bydd cynrychiolwyr cynghorau cymuned a thref yn cael mynychu pwyllgorau cynllunio ac arolygon safle'r pwyllgor.

14.4 Caniateir i gynrychiolydd annerch y Pwyllgor ar gais cynllunio, yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd ac yn unol â'r Protocol ar y Cyhoedd yn Siarad.

14.5 Disgwylir i gynrychiolwyr gadw at yr egwyddorion canlynol:-

(i) Cadw at Cod Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol, yn neilltuol yng nghyd-destun buddiannau i'w datgan.

(ii) Peidio cyflwyno gwybodaeth nad yw'n ystyriaeth gynllunio berthnasol.

15.0 Hyfforddiant i Aelodau

15.1 Mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd holl aelodau'r Cyngor, nid Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn unig, yn dilyn hyfforddiant. Ni fydd unrhyw Aelod yn cael eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio oni bai ei fod wedi cytuno i ddilyn hyfforddiant o'r fath.

15.2 Cynigir hyfforddiant craidd i aelodau cyn pen tri mis o'u penodi ar y Pwyllgor. Bydd hyn yn ymdrin â gweithdrefnau cynllunio, y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol, cywirdeb a phynciau eraill a bennir o bryd i'w gilydd gan Swyddogion trwy ymgynghori ag Aelodau.

15.3 Bydd hyfforddiant arall ar gael ar ffurf sesiynau ychwanegol fel seminarau ar bynciau penodol.

16.0 Adolygu Penderfyniadau

16.1 Er mwyn asesu a gwella ansawdd a chysondeb penderfyniadau a thrwy hynny gryfhau hyder y cyhoedd a chynorthwyo i adolygu polisi cynllunio bydd y Pwyllgor Cynllunio yn cynnal adolygiad blynyddol ar sampl o benderfyniadau cynllunio a wnaed gan y Pwyllgor. Bydd yr adolygiad yn cynnwys enghreifftiau o'r ystod o fathau o ddatblygiadau a bydd yn cynnwys ymweliadau â'r safleoedd.

16.2 Bydd y Pwyllgor Cynllunio yn ystyried yn ffurfiol ganlyniadau'r adolygiad ac yn penderfynu a yw'n creu angen am bolisiâu, gweithdrefnau ac arferion newydd.

16.3 Rhoddir adroddiadau cyson ar ganlyniad apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Cyngor i'r Pwyllgor Cynllunio fel bod gwersi'n cael eu dysgu. Rhoddir adroddiad hefyd yn gyson i Aelodau am ddeilliannau achosion gorfodi a champau cyfreithiol, gan

gynnwys yr Aelod Lleol, iddynt gael gwybod am y cynnydd.

16.4 Gall y Panel Dirprwyo o bryd i'w gilydd adolygu penderfyniadau a wnaed dan bwerau dirprwyedig swyddogion.

Atodiad 1

Protocol y Cyhoedd yn Siarad yn y Pwyllgor Cynllunio

Bydd y cyhoedd yn cael siarad yn y Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r protocol hwn yn unig. Ni allwch fynnu siarad yn y Pwyllgor fel hawl. Mae'r gwahoddiad i siarad a'r modd y cynhelir y cyfarfod yn ôl disgrisiwn Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ac yn ddarostyngedig i'r pwyntiau a nodir isod. Mae'r protocol confensiynol wedi ei addasu er mwyn caniatáu i'r cyhoedd siarad trwy fideos wedi eu recordio ymlaen llaw neu i fynd i gyfarfod yn bersonol ac annerch y Pwyllgor Cynllunio.

Pwy Gaiff Siarad?

Cynghorau Cymuned a Thref

Gall Cynghorau cymuned a thref annerch Pwyllgor Cynllunio trwy fideo wedi ei recordio ymlaen llaw neu yn bersonol yn y cyfarfod. Dim ond aelodau etholedig o gynghorau cymuned a thref gaiff siarad. Disgwylir i gynrychiolwyr arddel yr egwyddorion canlynol:

(i) Cadw at God Cenedlaethol Ymddygiad Llywodraeth Leol.

(ii) Peidio cyflwyno gwybodaeth nad yw:

- yn gyson gyda chyflwyniadau ysgrifenedig eu cyngor, neu
- yn rhan o gais, neu
- wedi ei chynnwys yn yr adroddiad neu ffeil gynllunio.

Pan fydd cynghorydd tref neu gymuned wedi cofrestru i siarad i wrthwynebu cais, bydd yr ymgeisydd neu asiant yn cael yr hawl i ateb.

Aelodau o'r Cyhoedd

Bydd siarad yn cael ei gyfyngu i un aelod o'r cyhoedd yn gwrthwynebu datblygiad ac un aelod o'r cyhoedd yn cefnogi datblygiad. Pan fydd mwy nag un person yn gwrthwynebu neu yn cefnogi, dylai'r unigolion neu grwpiau weithio gyda'i gilydd i ddewis llefarydd. Gall Cadeirydd y Pwyllgor arfer disgrisiwn er mwyn caniatáu ail siaradwr, ond dim ond mewn achosion eithriadol lle mae cais mawr yn creu barn amrywiol o fewn un 'ochr' i'r ddadl (e.e. cais am archfarchnad lle mae un llefarydd yn cynrychioli'r preswylwyr ac un arall yn cynrychioli adwerthwyr lleol). Gall aelodau o'r cyhoedd benodi cynrychiolwyr i siarad ar eu rhan.

Pan na chyrhaeddir cytundeb, bydd yr hawl i siarad yn mynd i'r person/sefydliad cyntaf a gofrestrodd eu cais. Pan fydd gwrthwynebydd wedi cofrestru i siarad, bydd yr ymgeisydd neu asiant yn cael yr hawl i ateb. Bydd siarad yn cael ei gyfyngu i geisiadau, pan fydd, erbyn y dyddiad cau, llythyrau gwrthwynebu/cefnogi neu lofnodion ar ddeiseb wedi cael eu cyflwyno i'r Cyngor gan 5 neu fwy o aelwydydd/sefydliadau gwahanol (yn y cyd-destun hwn ni fyddai sefydliadau yn cynnwys cynghorau cymuned neu dref na'r rhai yr ymgynghorir â hwy yn statudol sydd â'u dull eu hunain o sicrhau bod cais priodol yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor. Y dyddiad cau y cyfeirir ato uchod yw 5pm ar y diwrnod sydd chwe diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor. Bydd hyn fel arfer am 5pm ar y dydd Gwener chwe diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod Pwyllgor Cynllunio ar ddydd Mawrth. Ond, gall y dyddiad cau fod yn gynharach, er enghraifft os oes Gŵyl y Banc ar ddydd Llun.

Bydd y nifer o wrthwynebwyr a/neu gefnogwyr yn cael ei nodi'n glir yn adroddiad y swyddog ar gyfer y cais yn yr agenda gyhoeddedig.

Gall y Cadeirydd arfer disgrisiwn er mwyn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd siarad pan all cais gael effaith sylweddol ar ardal wledig wasgaredig ond bod llai na 5 o lythrau gwrthwynebu/cefnogi wedi eu derbyn.

Ymgeiswyr

Bydd gan ymgeiswyr neu eu hasiantau penodedig hawl i ymateb pan fydd aelodau o'r cyhoedd neu gyngor cymuned/tref, wedi cofrestru i annerch pwyllgor i wrthwynebu cais. Bydd hyn hefyd trwy fideo wedi ei recordio ymlaen llaw neu yn bersonol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio.

Pryd fydd siarad yn cael ei ganiatáu?

Fel arfer dim ond ar un achlysur y bydd hawl i'r cyhoedd siarad pan fydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Pan fydd ceisiadau cynllunio'n cael eu gohirio ac yn neilltuol pan fyddant yn cael eu hail gyflwyno yn dilyn penderfyniad pwyllgor i bennu ar gais yn groes i gyngor swyddog, ni chaniateir i'r cyhoedd siarad fel arfer. Ond rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau arbennig ar geisiadau a all gyfiawnhau eithriad. Y Cadeirydd sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

Cofrestru Ceisiadau i Siarad

Rhaid i siaradwyr gofrestru eu cais i siarad cyn gynted â phosibl, rhwng 12 hanner dydd ar y dydd Mawrth a 12 hanner dydd ar y dydd Gwener cyn y Pwyllgor. Er mwyn cofrestru cais i siarad, rhaid i wrthwynebwyr/cefnogwyr yn gyntaf fod wedi gwneud cyflwyniad ysgrifenedig am y cais cynllunio.

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno siarad hysbysu Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor am eu cais trwy ffonio 01633 644219 neu anfon e-bost at registertospeak@monmouthshire.gov.uk

Gadewch rif ffôn yn ystod y dydd os gwelwch yn dda. Bydd unrhyw geisiadau i siarad sy'n cael eu hanfon trwy e-bost yn cael eu cydnabod cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru i siarad. Os na fyddwch yn derbyn cydnabyddiaeth cyn y dyddiad cau, cysylltwch â Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219 i wirio bod eich cofrestrriad wedi cael ei dderbyn.

Mae croeso i siaradwyr annerch y Pwyllgor Cynllunio yn Gymraeg neu Saesneg, ond os bydd siaradwyr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, mae gofyn iddynt esbonio hyn yn glir wrth gofrestru i siarad a gofynnir iddynt roi o leiaf 5 diwrnod gwaith o rybudd er mwyn i'r Cyngor gael amser i gael cyfieithydd ar y pryd.

Cynghorir ymgeiswyr/asiantau a gwrthwynebwyr/cefnogwyr i gadw cysylltiad â'r swyddog achos o ran cynnydd y cais. Cyfrifoldeb y rhai sy'n dymuno siarad yw gwirio pryd y bydd y cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio trwy gysylltu â'r Swyddfa Gynllunio, a fydd yn gallu rhoi manylion y dyddiad tebygol y bydd y cais yn cael ei glywed. Nodir y weithdrefn ar gyfer cofrestru'r cais i siarad uchod.

Bydd y Cyngor yn cadw rhestr o bobl sy'n dymuno siarad mewn Pwyllgor Cynllunio. Ar ôl i'r cais i siarad gael ei gofrestru gan y Cyngor rhaid i'r siaradwr, os nad yw'n gallu bod yn bresennol ei hun, gyflwyno ei fideo wedi ei recordio erbyn hanner dydd ar y dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor. Rhaid i gynnwys y fideo gydymffurfio â'r amodau isod a pheidio â bod yn hwy na 4 munud o hyd. Os na fydd y trydydd parti yn dymuno recordio fideo, bydd angen iddo/iddi gyflwyno sgrïpt i'r Cyngor erbyn y dyddiad cau uchod, a fydd yn cael ei darllen gan swyddog i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Ni fydd y sgrïpt yn cynnwys mwy na 500 gair a bydd hefyd yn cydymffurfio

â'r amodau isod. Bydd gan siaradwyr hefyd y dewis i ddod i'r cyfarfod yn bersonol ac annerch y Pwyllgor Cynllunio.

Cynnwys yr Areithiau

Dylai sylwadau gan gynrychiolydd y cyngor tref/cymuned neu wrthwynebydd, cefnogwr neu ymgeisydd/asiant gael eu cyfyngu i faterion a godwyd yn eu cyflwyniad gwreiddiol a bod yn berthnasol i faterion cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisiâu cynllunio cenedlaethol a lleol perthnasol
- Ymddangosiad a nodweddion y datblygiad, ei batrwm a'i ddwyster
- Creu traffig, diogelwch y priffyrdd a pharcio/gwasanaethu;
- Cysgodi, edrych i mewn, sŵn, arogleuon neu golli amwynder arall.

Dylai siaradwyr osgoi cyfeirio at faterion tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cynllunio, fel:

- Anghydfodau am derfynau, cyfamodau a hawliau eiddo arall
- Sylwadau personol (e.e. Cymhelliant yr ymgeisydd neu weithredoedd hyd yn hyn neu am aelodau neu swyddogion)
- Hawl i olygfeydd neu ddibrisio eiddo.

Gweithdrefn yng Nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

Nodir y weithdrefn ar gyfer ymdrin â'r cyhoedd yn siarad isod:

- Bydd y Cadeirydd yn dynodi'r cais i'w ystyried.
- Bydd swyddog yn cyflwyno crynodeb byr o'r cais a'r materion gyda'r argymhelliad.
- Gwahoddir yr Aelod Lleol, os nad yw ar y Pwyllgor Cynllunio, i siarad am uchafswm o 6 munud gan y Cadeirydd.
- Os yn berthnasol, bydd y recordiad fideo o gynrychiolydd y cyngor cymuned neu dref yn cael ei chwarae wedyn i'r Aelodau (ni fydd yn fwy na 4 munud o hyd). Neu, os bydd y cyngor cymuned neu dref wedi dewis cyflwyno sgript o'u cyflwyniadau bydd honno'n cael ei darllen yn uchel gan swyddog i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Fel arall, gall cynrychiolwyr y cyngor cymuned neu dref annerch y Pwyllgor Cynllunio'n bersonol yn y cyfarfod am uchafswm o 4 munud.
- Os yn berthnasol, bydd recordiad fideo'r gwrthwynebydd yn cael ei chwarae wedyn i'r Aelodau (ni fydd yn hwy na 4 munud o hyd) Neu, os bydd trydydd parti wedi dewis cyflwyno sgript o'u cyflwyniadau bydd honno'n cael ei darllen yn uchel gan swyddog i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Neu, gall y gwrthwynebydd annerch y Pwyllgor Cynllunio'n bersonol yn y cyfarfod am uchafswm o 4 munud.
- Os yn berthnasol, bydd recordiad fideo'r cefnogwr yn cael ei chwarae wedyn i'r Aelodau (ni fydd yn hwy na 4 munud o hyd) Neu, os bydd trydydd parti wedi dewis cyflwyno sgript o'u cyflwyniadau bydd honno'n cael ei darllen yn uchel gan swyddog i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Neu, gall y cefnogwr annerch y Pwyllgor Cynllunio'n bersonol yn y cyfarfod am uchafswm o 4 munud.
- Os yn berthnasol, bydd recordiad fideo'r ymgeisydd (neu asiant penodedig) yn cael ei chwarae wedyn i'r Aelodau (ni fydd yn hwy na 4 munud o hyd). Neu, os bydd y trydydd barti wedi dewis cyflwyno sgript o'u cyflwyniadau bydd honno'n cael ei darllen yn uchel gan swyddog i Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod. Neu, gall yr ymgeisydd (neu asiant penodedig) annerch y Pwyllgor Cynllunio'n bersonol yn y cyfarfod am uchafswm o 4 munud.
- Pan fydd mwy nag un unigolyn neu sefydliad yn siarad yn erbyn cais, bydd yr Ymgeisydd neu asiant penodedig, yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd, yn cael hawl i gyflwyno fideo o'i ymateb o uchafswm o 5 munud. Neu, gall yr ymgeisydd (neu asiant penodedig) annerch y Pwyllgor Cynllunio'n bersonol yn y cyfarfod am uchafswm o 5 munud.

o Fel arfer cedwir yn gaeth at y cyfyngiadau amser er y bydd gan y Cadeirydd ddisgrisiwn i addasu'r amser o ystyried amgylchiadau'r cais neu'r rhai sy'n siarad.

o Unwaith yn unig y bydd siaradwyr yn cael siarad.
o Gall Aelodau'r Pwyllgor wedyn godi cwestiynau gyda'r swyddogion.

- Bydd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio wedyn yn trafod y cais, gan gychwyn gyda'r Aelod Lleol os yw'n aelod o'r Pwyllgor Cynllunio. Ni fydd swyddogion yn cymryd unrhyw gwestiynau pellach oni bai ei fod i gynghori Aelodau am fater gweithdrefnol neu gyfreithiol, neu pan fyddant yn ystyried bod yr Aelodau'n gwyrto oddi wrth ystyriaethau cynllunio perthnasol.
- Pan fydd gwrthwynebydd neu gefnogwr neu ymgeisydd/asiant cyngor cymuned neu dref wedi siarad am gais, ni chaniateir unrhyw siarad gan nac ar ran y grŵp hwnnw petai'r cais yn cael ei ystyried eto mewn cyfarfod o'r pwyllgor yn y dyfodol oni bai bod newid perthnasol yn y cais.
- Mae penderfyniad y Cadeirydd ar faterion gweithdrefnol yn derfynol.
- Wrth wneud cynnig i naill ai dderbyn argymhelliad y swyddog neu wneud gwelliant bydd yr Aelod sy'n cyflwyno'r cynnig yn nodi'r cynnig yn glir.
- Pan fydd y cynnig wedi cael ei eilio bydd y Cadeirydd yn dynodi'r Aelodau sydd wedi cynnig ac eilio'r cynnig ac yn ailadrodd y cynnig a gynigiwyd (gan gynnwys unrhyw amodau ychwanegol neu faterion eraill a godwyd). Bydd enw'r cynigydd a'r eilydd yn cael eu cofnodi.
- Bydd aelodau'n gwrthod pleidleisio yng nghyswllt unrhyw gais cynllunio oni bai eu bod wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio trwy gydol y cyflwyniad a'r drafodaeth lawn ar y cais hwnnw.
- Bydd unrhyw Aelod sy'n ymatal rhag pleidleisio yn ystyried a yw am roi rheswm am ymatal.
- Bydd y Swyddog Cyfreithiol yn cyfri'r pleidleisiau ac yn cyhoeddi'r penderfyniad.
- Pan fydd y cynnig wedi cael ei eilio bydd y Cadeirydd yn dynodi'r Aelodau sydd wedi cynnig ac eilio'r cynnig ac yn ailadrodd y cynnig a gynigiwyd. Bydd enw'r cynigydd a'r eilydd yn cael eu cofnodi.
- Bydd aelod yn gwrthod pleidleisio yng nghyswllt unrhyw gais cynllunio oni bai ei fod ef neu hi wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio trwy gydol y cyflwyniad a'r drafodaeth lawn ar y cais hwnnw.
- Bydd unrhyw Aelod sy'n ymatal rhag pleidleisio yn ystyried a yw am roi ei reswm/ei rheswm am ymatal.
- Bydd swyddog yn cyfri'r pleidleisiau ac yn cyhoeddi'r penderfyniad.